Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Pentraeth
# Ysgol Gymuned Pentraeth
# Pentraeth
# Ynys Môn
# LL75 8UP

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2014**

## Cyd-destun

Cylch chwarae cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Pentraeth yn yr ysgol gynradd leol.  Pentref gwledig bychan tua 4 milltir o Langefni yn Ynys Môn yw Pentraeth.

Mae'r cylch chwarae wedi ei gofrestru i gymryd uchafswm o 16 o blant mewn unrhyw un sesiwn.  Mae`r plant yn cael eu derbyn yn ddwy a hanner mlwydd oed ac yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu trydydd penblwydd.  Ar hyn o bryd mae 16 o blant ar y gofrestr, ac o'r rhain mae 14 plentyn tair oed yn cael eu hariannu.  Saesneg yw iaith y cartref i`r rhan fwyaf o`r plant, a dim ond ychydig o blant sy`n dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.  Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae dau aelod o staff llawn amser – mae ganddynt gymwysterau addas a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc.  Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2004.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mawrth 2011 a gan Estyn ym mis Tachwedd 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r holl blant yn cyflawni`n dda ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- mae`r holl blant yn gwrando`n dda ar storïau ac yn ateb cwestiynau gyda brwdfrydedd;
- mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau da at ddysgu;
- mae`r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau dysgu ar gyfer y plant;
- mae lles y plant yn flaenoriaeth uchel yn ogystal â`r gofal, cymorth ac arweiniad sy`n cael eu darparu gan y lleoliad;
- mae`r berhynas rhwng oedolion a phlant yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r holl blant yn cyflawni`n dda ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- mae`r holl blant yn gwrando`n dda ar storïau ac yn ateb cwestiynau gyda brwdfrydedd;
- mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau da at ddysgu;
- mae`r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau dysgu ar gyfer y plant;
- mae lles y plant yn flaenoriaeth uchel yn ogystal â`r gofal, cymorth ac arweiniad sy`n cael eu darparu gan y lleoliad;
- mae`r berhynas rhwng oedolion a phlant yn dda.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 barhau i ddefnyddio canlyniadau`r asesu i ddarparu tasgau â ffocws i fodloni anghenion pob plentyn.

A2 gwella`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant.

A3 cynnwys cyfleoedd i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o ail-gylchu a chynaladwyedd o fewn y cwricwlwm.

A4 gwella`r amgylchedd dysgu tu allan lle`n bosib.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu; maen nhw`n cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da wrth gaffael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau.

Mae'r holl blant yn gwrando'n dda ar storïau ac yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau Maen nhw`n ymateb yn gyflym i gyfarwyddiadau ac yn barod i gyd-weithio wrth weithio mewn grwpiau bach, fel wrth olchi eu hanifeiliaid neu wrth beintio. Mae bron pob plentyn yn adnabod eu henw wrth gofrestru ac amser byrbryd. Mae`r rhan fwyaf o blant yn dal offer ysgrifennu yn gywir gan liwio lluniau o`u hanifeiliaid gyda gofal a sylw rhesymol. Maen nhw`n ymwybodol o rai o swyddogaethau ysgrifennu, fel wrth ysgrifennu eu cardiau Pasg neu gymryd negeseuon o alwadau ffôn.

Mae medrau rhif rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda ac maen nhw`n gallu cyfrif i bump, fel wrth gyfrif y nifer o wyau mewn nythod adar. Gall rhai cyfrif yn gywir hyd at 10. Mae llawer o blant yn adnabod ffurf ysgrifenedig rhifau ac yn gallu cyfateb siapiau a phosau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau peintio ac yn dangos sgiliau creadigol da mewn perthynas â'u hoedran. Mae eu sgiliau echddygol bras yn datblygu'n dda ac maen nhw`n gallu pedlo a llywio tractorau bach. Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ddealltwriaeth sylfaenol o`r geiriau a`r ymadroddion Cymraeg syml maen nhw`n eu clywed gan oedolion. Er eu bod yn deall mwy o'r iaith nag y maen nhw`n ei siarad, mae`r rhan fwyaf o'r plant yn adnabod geiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â`r storïau maen nhw wedi eu clywed.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn, trwy eu hagwedd a'u hymddygiad, yn dangos eu bod yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Maen nhw`n awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer ac yn dyfalbarhau ar dasgau am gyfnod sylweddol o amser.

Yn ddieithriad, mae`r plant yn ymddwyn yn dda; maen nhw`n gwrtais ac yn ystyriol o'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf yn dangos hunan-reolaeth sydd wedi datblygu`n dda ac yn hapus i rannu a chymryd eu tro. Yn ystod amser byrbryd mae`r plant yn dangos amynedd ac yn aros i "Helpwr y Dydd" roi llaeth a ffrwythau amrywiol iddynt. Maen nhw`n dysgu dweud "diolch". Mae pawb yn deall beth ydy hylendid da ac mae`r holl blant yn golchi`u dwylo cyn amser byrbryd.

Mae plant yn cael cyfleoedd i ddewis eu hoffer chwarae; maen nhw`n trin adnoddau yn ofalus ac yn cymryd cyfrifoldeb am y teganau maen nhw`n eu defnyddio. Mae`r plant yn cymryd rhan wrth adolygu gweithgareddau'r bore ac mae`r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn cael ei gofnodi ar eu map thematig.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu `r plant ag ystod dda o brofiadau dysgu amrywiol a diddorol ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae`r dysgu yn seiliedig ar thema ac mae`r plant yn cyfrannu at hyn sy`n eu darparu â chymhelliant da i ddysgu.

Mae`r cynllunio yn effeithiol wrth sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau cyfredol y plant ac mae`r ymarferwyr yn dangos a chynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu `r plant. Mae`r cynllunio yn effeithiol wrth sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu darparu i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r holl blant yn adnabod eu henwau wrth hunan-gofrestru bob bore ac yn casglu eu matiau bwrdd a`u henwau arnynt ar gyfer amser byrbryd. Nodwedd nodedig yw'r defnydd da sy`n cael ei wneud o'r Gymraeg. Mae`r ymarferwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl a`r Gymraeg yw iaith naturiol y cyfathrebu yn y lleoliad. Mae'r cynllunio yn cynnwys defnydd da o ganeuon i ddatblygu geirfa`r plant. Mae cyfleoedd i gynnwys rhifedd yn cael eu cynllunio'n dda – mae`r plant yn cyfrif presenoldeb yn y bore neu anifeiliaid mewn stori. Mae llawer o blant yn dysgu defnyddio iaith fathemategol sylfaenol, fel "llawn a gwag".

Mae`r plant yn ymwybodol o rai dyfeisiau electronig, gan gynnwys tegan rhaglenadwy ac offer recordio. Nid oes digon o gyfleoedd, fodd bynnag, i ddatblygu sgiliau TGCh y plant. Mae'r profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau corfforol a chreadigol a dealltwriaeth o bethau byw.

Mae`r cynllunio ar gyfer diwylliant a thraddodiadau Cymru yn dda, er enghraifft Dydd Gŵyl Dewi. Mae plant yn gwisgo'n briodol ac yn mwynhau bwydydd traddodiadol Cymreig

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda a chlir o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn brofiadol i weithio gyda phlant ifanc. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolion ac yn gyffredinol mae'r strategaethau wedi'u ffocysu'n dda ar ennyn diddordeb a chymhelliant plant. Mae cwestiynu`n cael ei ddefnyddio`n dda i ddatblygu medrau meddwl plant ac i ddatblygu eu hiaith. Mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n greadigol i wella`r dysgu, er enghraifft, i ddatblygu darlleniad o stori am anifeiliaid ymhellach.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu trefn dda ac mae hyn yn sicrhau bod y plant yn gwybod beth sydd i`w ddisgwyl ganddynt ac maen nhw`n elwa o fod mewn amgylchedd dysgu lle maen nhw`n teimlo'n ddiogel.

Nodwedd dda o'r addysgu yw'r tasgau ffocws sy'n cyfateb yn dda i anghenion y plant. Mae'r rhain yn deillio o'r defnydd da sy`n cael ei wneud o asesu. Mae dogfen asesu yr awdurdod lleol sydd wedi`i chyflwyno yn ddiweddar yn darparu`r lleoliad â chofnod manwl o gyflawniad a chynnydd pob plentyn. Mae'r lleoliad yn defnyddio`r asesiadau

hyn yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau fel tasgau ffocws sy'n cyfateb yn dda i anghenion y plant a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn enghraifft o arfer dda yn y modd mae`n cadarnhau ac yn ymestyn dysgu`r plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae gweithgareddau ac ymweliadau tymhorol yn datblygu chwilfrydedd plant am y byd maen nhw`n byw ynddo. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd. Mae gan blant ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gywir ac anghywir. Mae`r plant yn dysgu sut i rannu ac i gymryd eu tro ac yn gyffredinol maen nhw`n dangos ymddygiad ac agweddau da iawn.

Mae ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant yn datblygu'n dda trwy ddathlu digwyddiadau fel Dydd Gŵyl Dewi. Mae`r plant hefyd yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac yn siarad am fywyd yn Affrica. Mae hyn yn cynyddu gwybodaeth y plant am amrywiaeth bywyd dynol.

Nid oes unrhyw blant yn y lleoliad sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae plant o'r fath wedi cael lle yn y gorffennol ac wedi cael eu cefnogi gan staff yr awdurdod lleol. Mae trefniadau yn eu lle pe bai`r lleoliad yn derbyn plentyn sydd ag anghenion addysgol ychwanegol neu arbennig.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddiogelu ac i hyrwyddo lles plant. Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Nid oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar annog plant i feddwl am gynaliadwyedd ac ailgylchu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael hawl gyfartal i adnoddau a gweithgareddau.

Mae'r holl blant yn cael eu parchu fel unigolion ac mae`r ymarferwyr yn sensitif i'w hanghenion. Mae awgrymiadau`r plant am yr hyn maen nhw wedi`i ddysgu yn cael eu nodi ac mae hyn yn sicrhau bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio gan ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad addas sy'n darparu profiadau dysgu i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r lleoliad yn cael ei gynnal yn dda ac yn ddiogel. Yn gyffredinol, mae`r adnoddau o ansawdd da ac yn gweddu`n dda i anghenion plant.

Mae'r lle tu fewn yn cael ei ddefnyddio'n dda ac wedi`i wahaniaethu'n addas i ardaloedd o weithgareddau. Mae`r adnoddau yn hygyrch ar gyfer y plant. Tanddatblygedig yw`r defnydd o'r awyr agored fel amgylchedd dysgu. Rhaid mynd drwy'r ysgol i`w gyrraedd, a dim ond fel gweithgaredd dosbarth cyfan mae`n bosib i`w

ddefnyddio. Mae`n cynnwys ardal o laswellt ac er ei fod yn amgylchedd diogel, nid oes digon o offer ac adnoddau i gefnogi dysgu`r plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cael ei reoli'n dda. Mae gan yr arweinydd nodau clir sy'n canolbwyntio ar gynnig y ddarpariaeth orau posibl i bob plentyn ac mae ei nodau yn cael eu rhannu gyda'i chydweithiwr. Mae'r nodau hyn yn cael eu cyflawni`n llawn yn ymarferol.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn fel tîm. Mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau maen nhw`n eu deall yn dda ac yn mwynhau eu gwaith. Mae synnwyr clir o ddiben yn amlwg ac mae`r staff yn dangos ymdeimlad o falchder yn ansawdd da y ddarpariaeth a'r profiadau sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ac maen nhw`n hunan-feirniadol ac yn arfarnol o`u gwaith a'u cyfraniadau. Mae gwerthusiad yn cael ei ddefnyddio i nodi targedau ar gyfer gwella yn y dyfodol. Mae`r staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant proffesiynol perthnasol ac mae'r rhain wedi bod yn effeithiol wrth gyflwyno syniadau newydd a gwella ansawdd y ddarpariaeth.

Mae`r staff yn cyfarfod yn reolaidd i drafod cynnydd plant ac i gynllunio gweithgareddau i`r dyfodol. Mae'r pwyllgor rheoli yn hollol wybodus ac yn gefnogol o`r lleoliad. Maen nhw`n ymwybodol iawn o weithgareddau'r lleoliad, ac yn monitro a gwerthuso pa mor dda y mae'r lleoliad yn ei wneud. Mae gwariant yn cael ei fonitro'n dda ac yn canolbwyntio ar dargedau sydd wedi`u nodi yn y cynllun datblygu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant o hunanarfarnu yn amlwg o fewn y lleoliad. Mae cryfderau a meysydd ar gyfer datblygu wedi eu hadnabod; maen nhw`n realistig, yn gyraeddadwy a byddant yn arwain at well ddarpariaeth ar gyfer plant. Mae barn rhieni yn cael sylw yn reolaidd ac mae hoff bethau a diddordebau`r plant yn cael eu hymgorffori yn y cwricwlwm. Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gyda'i chydweithiwr ac yn cynllunio yn unol â hynny.

Dywed y lleoliad ei fod wedi elwa'n sylweddol o'r cymorth a'r cyngor a gafodd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r lleoliad wedi ymateb yn gadarnhaol i gyngor o'r fath sydd wedi arwain at welliant yn ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad plant.

Mae`r cynllunio ar gyfer gwella yn broses barhaus ac mae`r blaenoriaethau cyfredol wedi`u sefydlu`n dda o fewn graddfa amser briodol; mae`r staff a`r gweithdrefnau monitro wedi`u nodi ac ar waith.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae ystod effeithiol o bartneriaethau`r lleoliad yn cyfrannu'n sylweddol at wella canlyniadau ar gyfer y plant.

Mae'r lleoliad yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni yn ei waith. Mae rhieni wedi`u hysbysu'n dda am y gwaith mae eu plant yn ei wneud a`u cynnydd. Mae'r rhieni yn fodlon iawn ac yn datgan ei fod yn hawdd mynd at y staff.

Nodwedd nodedig a da yw'r bartneriaeth hynod gynhyrchiol gyda'r ysgol gynradd leol. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r athrawon, yn ymweld â'r dosbarth derbyn ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill yr ysgol. Mae hyn yn hwyluso trosglwyddo plant i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol wedi bod yn hanfodol wrth ddatblygu darpariaeth y lleoliad gan roi cymorth a chyngor da. Mae cefnogaeth gan y Mudiad Meithrin hefyd yn cael ei defnyddio`n dda i ddatblygu iaith Gymraeg y plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r staff wedi`u hyfforddi'n briodol ac mae ganddynt brofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae`r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn derbyn eu cyfrifoldebau yn llawn. Mae'r ddwy yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae`r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o gyrsiau hyfforddi i wella eu harfer, ac o ganlyniad y ddarpariaeth ar gyfer plant.

Mae`r gwariant yn cael ei arolygu ac yn cyfateb i flaenoriaethau ac amcanion y lleoliad.

At ei gilydd, mae'r lleoliad yn darparu'n effeithiol ar gyfer y plant ac yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr  arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |